Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2017

Amser: 09.02 - 12.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4405

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	John Griffiths AC (Cadeirydd) Mick Antoniw AC Gareth Bennett AC Janet Finch-Saunders AC Siân Gwenllian AC Rhianon Passmore AC Jenny Rathbone AC
Tystion:	Simon Thomas AC Gareth Howells Joanne McCarthy, Y Gwasanaeth Ymchwil Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Chris Vinestock, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Katrin Shaw, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

	Cymru
Staff y Pwyllgor:	Naomi Stocks (Clerc) Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc) Chloe Davies (Dirprwy Glerc) Osian Bowyer (Ymchwilydd) Gareth David Thomas Hannah Johnson (Ymchwilydd) Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Bethan Jenkins AC.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Mick Antoniw AC fel aelod newydd ar y Pwyllgor, yn lle Joyce Watson AC, a diolchodd i Joyce Watson AC am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor.

2 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Simon Thomas AC, Aelod Cyfrifol
- Gareth Howells, Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn y Cynulliad
- Joanne McCarthy, Y Gwasanaeth Ymchwil, Comisiwn y Cynulliad

3 Craffu ar adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2016/17

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau
- Katrin Shaw, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfreithiol a Llywodraethu

3.2 Yn ystod y sesiwn, cytunodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ddarparu nodyn i gynnwys dadansoddiad o themâu cwynion am wasanaethau'r Ombwdsmon, o'r adolygiad allanol annibynnol a gynhaliwyd.

4 Papurau i'w nodi

4.1 Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

4.1.a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19.

4.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

4.2.a Nododd y Pwllgor Lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19.

4.3 Gohebiaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip a'r Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

4.3.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip a'r Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

4.4 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at y Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

4.4.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at y Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

6 Craffu ar adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2016-17: ystyried y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem3.

7 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2016-17: ystyried y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 3

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2 a chytunodd i ysgrifennu at yr Aelod sy'n gyfrifol am y materion a godwyd.

8 Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: ystyried yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.